Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

**FFORWM CYLLID YSGOLION**
**Dydd Iau, 2il Chwefror 2023**
**(Microsoft Teams)**

# NODIADAU

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Keith Maher (Pen Y Dre High) - Cadeirydd<br>Ryan Morgan (Partneriaeth Ddysgu Taf Bargod)<br>Sarah Townsin (Ysgol Coed Y Dderwen)<br>Alwen Bowen (Ysgol Rhyd Y Grug)<br>David Anstee (Ysgol Cynradd Y Graig)<br>Laurence Matuszczyk (Ysgol Gynradd Trefedward)<br>Mike O'Neill (Ysgol Uwchradd Pen Y Dre)<br>Paul Phillips (Ysgol Gynradd Gwaunfarren)<br>Steve Jones (Prif Swyddog Cyllid)<br>Councillor A Barry (Portffolion Cabinet am Lywodraethu ac Adnoddau)<br>Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)<br>Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio a Gwella Addysg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Joanna Lewis (Rheolwr LMS)<br>Gary Winston (Clerc i'r Fforwm)<br>Ian Kent (Cyfrifydd y Grŵp) |
| **YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB:** | Stuart James (Afon Taf)<br>Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)<br>Sarah Hopkins (Ysgol Gatholig 3-16 y Bendigaid Carlo Acutis)<br>Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)<br>Garhard Williams (Cynrychiolydd Undeb Llafur) |

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| **1.** | **Cadeirydd**<br>Yn dilyn absenoldeb y Cadeirydd, agorwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd, Ryan Morgan. |
| **2.** | **Cwtogiad Cyllidol 2023-2024**<br>AB: Hoffwn ymddiheuro am yr oedi mewn cysylltu â chi, ond bu'r Cabinet yn cynnal adolygiad trwyadl o'n cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf ac o ganlyniad i ffactorau megis nawdd ychwanegol a rhagolwg is ar gyfer ardrethu chwyddiant, rydym wedi gallu diwygio ein cais i ysgolion ynghylch arbedion a gofynnwn nawr am arbedion o £1.5 miliwn yn hytrach na'r £2.5 miliwn a drafodwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf.<br><br>SJ: Mae'r gostyngiad hwn yn bosib oherwydd daethom o hyd i arbedion ychwanegol mewn adrannau eraill, ein cronfa wrth gefn, a chynnydd mewn Treth Cyngor. |

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| | RM: Rydym yn ddiolchgar am y gostyngiad ac yn gwerthfawrogi'r ymdrech a wnaed i leihau'r toriad. Nid ydym yn croesawu un rhyw doriad, ond hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Barry.<br><br>**PP: Ai cynnig yn unig yw hwn ar hyn o bryd oherwydd y bydd angen i'r Cyngor llawn osod y cyllid ac nid ydy hynny wedi digwydd eto?**<br><br>AB: Bydd yn rhaid iddo gael ei gadarnhau gan y Cyngor, ond rydym wedi trafod gyda'n cydweithwyr Llafur, ac maent wedi mynegi eu cefnogaeth ac rydym yn obeithiol y cytuna arno.<br><br>**PP: Beth yw canran diwygiedig y gostyngiad?**<br><br>AL: Bydd yn lleihau o 5.15% i 3.04%.<br><br>Mae dwy eitem gennym i'w hystyried heddiw – lleihad i'r Cyllid Ysgolion Unigol o 3.04% ar gyfer 2023/2024 a gwaredu ar y Lwfans Diamod ar Ddillad, dim ond ysgolion uwchradd bydd yn cael eu heffeithio a bydd yn arbed £67,000. Rydym yn ceisio am gytundeb i'r cynigion hyn yn ystod y cyfarfod heddiw ac yna bydd gennym bythefnos o ymarfer ymgynghori gyda Chadeiryddion y Llywodraethwyr. Bydd casgliadau'r ymgynghoriad yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i'r Cyngor wrth iddynt ystyried y cyllid.<br><br>**PP: A ydym yn ceisio am gytundeb ynghylch canran y gostyngiad neu ynghylch y fethodoleg parthed sut fyddai dod o hyd i'r gostyngiad hwn?**<br><br>AL: Cytunwyd ar y fethodoleg yn ystod y cyfarfod diwethaf ac rydym nawr yn ceisio am gadarnhad i'r ddau gynnig i leihau nawdd.<br><br>**PP: Diolch, ond mae'n ymddangos yn od i ofyn am ein cytundeb ynghylch rhywbeth gallai'r Cyngor wrthod.**<br><br>AL: Cytunwyd ar y prosesau a'r fethodoleg am ei fod yn ofyniad statudol i ymgynghori gyda'r Fforwm Cyllid Ysgolion cyn cytuno ar benderfyniadau.<br><br>*Ymunodd KM â'r cyfarfod a chymerodd y Gadair.*<br><br>KM: Diolch Ryan am gadeirio ar fy rhan ac ymddiheuriadau am fod yn hwyr.<br><br>AL: Os gallaf ofyn i IK rannu'r daenlen sy'n dangos sut bydd yr £1.5 miliwn yn cael ei gyflawni.<br><br>Rhannwyd taenlen, ac eglurodd IK effaith y toriad o 3.04% ar gyllidebau ysgol.<br><br>**RM: Crybwyllwyd y mater yn y cyfarfod diwethaf ond mae'r toriad i Greenfield yn ymddangos yn uchel?**<br><br>AL: Nid oeddwn i'n bresennol yn ystod y cyfarfod diwethaf ond o weld y cofnodion drafft, nododd y Pennaeth efallai y byddai angen cymorth pellach gan yr Awdurdod Lleol.<br>**KM: Os ydym yn barod i bleidleisio ar y materion hyn, a allaf gynnig yn gyntaf y bwriad i waredu** |

| Rhif | Trafodaeth/ Gweithred |
|---|---|
| | **ar y nawdd Lwfans Diamod ar Ddillad a fydd yn arbed £67,000.**<br><br>Cytunodd yr Aelodau'n unfrydol i dderbyn y cynnig i waredu ar y nawdd ar gyfer Lwfans Diamod ar Ddillad.<br><br>**KM: A allwn bleidleisio ar y cynnig i leihau'r Gyllideb Ysgolion Unigol o 3.04% ar gyfer 2023/2024?**<br><br>Pleidleisiodd yr Aelodau, 10 o blaid a 2 yn erbyn ac o ganlyniad cytunwyd i dderbyn y lleihad o 3.04% i gyllid ysgolion.<br><br>**KM: Diolch, gan ein bod ni nawr wedi cytuno'r cynigion hyn, a ydych yn medru egluro pa fodd y dylem fwrw ati oherwydd mae hwn yn debygol o gael effaith sylweddol.**<br><br>SW: Mae eich Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr yn gweithio ar y cyllidebau a byddant yn trafod gyda'r Penaethiaid. Os oes angen diswyddiadau staff, bydd y dull gweithredu'n cael ei egluro wrthynt a bydd Swyddogion Adnoddau Dynol hefyd ar gael i roi cyngor ynghylch y dulliau i roi terfyn ar gytundebau dros dro neu'r broses diswyddo os oes angen.<br><br>**PP: Mae'n anodd gweld sut gallwn ddechrau ystyried hwn cyn bod y Cyngor wedi gosod y gyllideb. Gallwn ddechrau ystyried opsiynau, ond byddwn yn eich cynghori i beidio â gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol rhag ofn bod newid i'r amgylchiadau.**<br><br>SW: Mae'n rhaid i chi ddechrau ystyried eich opsiynau cyn gynted â phosib, mae diswyddiad yn broses hir oherwydd bod angen i'ch Swyddog Cymorth, Adnoddau Dynol, y Bwrdd Llywodraethu a'r Undebau Llafur fod yn rhan o'r broses.<br><br>**PP: A ddylai ysgolion fod yn adrodd yn ôl ynghylch goblygiadau unrhyw doriadau?**<br><br>SW: Fel eglurodd Anthony, bydd ymgynghoriad gyda phob ysgol ac mae cyfle o fewn hynny i bob ysgol egluro'r effaith ar eu cyllid a chyflenwadau'r ysgol.<br><br>**LM: Beth yw'r sefyllfa gyda diswyddiadau gwirfoddol?**<br><br>SW: Bydd yn rhaid i chi ystyried eich cytundebau dros dro yn gyntaf ond mi fydd Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol (RhCG) ar gael.<br><br>AL: Bydd y RhCG yn cydymffurfio gyda'r polisi cyfredol sydd ar y lefel statudol a fydd yn cael ei dalu gan y Cyngor ac 20% ychwanegol i'w dalu gan yr ysgol.<br><br>KM: Os nad oes unrhyw faterion eraill, a allaf ddiolch i'r Cynghorwyr a'r Swyddogion am eu gwaith a diolch unwaith eto i'r Cynghorydd Barry am ein helpu ni i leihau lefel y toriad. Bydd ysgolion yn wynebau amseroedd anodd a bydd effaith sylweddol ar eu gallu i gyflawni targedau.<br><br>Daeth y cyfarfod i ben. |